

---

## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol**. Mae'r safon yma'n ymwneud â rhywyn proffesiynol ym maes gwallt sy'n cefnogi uwch aelod o staff yn ystod gwasanaethau cemegol. Mae dyletswyddau'n cynnwys paratoi a chynnal yr amgylchedd waith, deunyddiau, offer a chyfarpar a chynorthwyo o fewn y gwasanaeth er mwyn hybu cyflymder ac effeithiolrwydd. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisiau a'r gweithdrefnau diweddaraf a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau.

### Y prif ddeilliannau yw:

1. Paratoi'r amgylchedd waith, gan gynnwys y deunyddiau, offer a'r cyfarpar sydd eu hangen
2. Cynorthwyo o fewn y gwasanaeth
3. Cadw'r unigolyn yn gyfforddus a gofalu amdano fel rhan o'r gwasanaeth

## Cynorthwyo gyda gwasanaethau cemegol

### Meini prawf perfformiad

#### Rhaid i chi allu:

#### Rhaid i chi allu:

1. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau
2. trafod eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau o fewn y gwasanaeth gwallt gyda staff uwch, i gynnwys:
  - 2.1 manylion paratoi am gyfarpar, offer, deunyddiau a chynnyrch sydd eu hangen yn unol â'r cynllun gwasanaeth gwallt a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
  - 2.2 sut byddwch yn cynorthwyo yn ystod y gwasanaeth gwallt
  - 2.3 y risgiau cysylltiedig a sut y gellir eu hosgoi

#### Paratoi am y gwasanaeth

3. paratoi'r amgylchedd waith, yr offer a'r deunyddiau sydd eu hangen, i gynnwys:
  - 3.1 dewis cynnyrch yn unol â lefel eich gallu, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
4. gwirio gyda staff uwch bod tasgau paratoi wedi eu cyflawni

#### Cynorthwyo o fewn y gwasanaeth

5. paratoi'r unigolyn yn unol â'r cynllun gwasanaeth gwallt
6. cynorthwyo gyda thrin, pasio ac ailgyflenwi cynnyrch a deunyddiau, yn ôl y gofyn
7. edrych ar y technegau y mae staff uwch yn eu defnyddio pan yn cyflawni gwasanaethau gwallt, i gynnwys:
  - 7.1 adfyfrio ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth a sut mae pob gwasanaeth yn wahanol ac yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn
8. sicrhau bod yr unigolyn yn gyfforddus a gofalu amdano drwy wasanaethau lletygarwch
9. gwirio gyda staff uwch bod tasgau cynorthwyo o fewn y gwasanaeth wedi eu cyflawni
10. edrych ar staff uwch pan maent yn tynnu cynnyrch cemegol ar gyfer y gwallt allan o'r gwallt
11. cyflawni triniaeth siampŵ neu gyflyru yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
12. cwblhau'r gwasanaeth yn unol â'r cynllun gwasanaeth
13. cadarnhau yn eiriol gyda'r unigolyn ei fod yn fodlon gyda'r canlyniad terfynol
14. monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth gwallt
15. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
16. diweddar cofnodion yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data
17. **rhoi cyfarwyddiadau** a chynghor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y gwasanaeth
18. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth gwallt a gweithredu'n briodol, i gynnwys:
  - 18.1 derbyn adborth gan yr unigolyn a chymheiriaid
19. cofnodi canlyniad y gwasanaeth gwallt a'r gwerthusiad ohono

## Cynorthwyo gyda gwasanaethau cemegol

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

#### Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn cynorthwyo gyda gwasanaethau cemegol
2. pwysigwrydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisïau gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am yr arfer orau ddiweddaraf
3. **yr anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
4. y mathau o gynnyrch cemegol a ddefnyddir yng ngwasanaethau'r gwallt a'u heffeithiau
5. y deunyddiau, yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir o fewn gwasanaethau cemegol i'r gwallt
6. y risgiau a gysylltir â bod yn agored i gynnyrch cemegol ar gyfer y gwallt
7. sut i baratoi'r amgylchedd waith ar gyfer gwasanaethau cemegol
8. sut i baratoi'r unigolyn ar gyfer gwasanaethau cemegol, i gynnwys: 8.1 ffyrdd y gellwch sicrhau dod i gyn lleied o gysylltiad â phosibl â chynnyrch cemegol ar gyfer y gwallt
9. sut i sicrhau eich bod yn gwneud cyn lleied o ddifrod â phosibl i wallt yr unigolyn yn ystod y broses o siampwio a chyflyru
10. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth, i gynnwys:
  - 10.1 y risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cemegol ar gyfer y gwallt a sut y gellir eu hosgoi
11. pam ei bod yn bwysig trafod a deall cyfarwyddiadau a chyfarwyddiadau a chyfarwyddyd a roddir gan staff uwch, i gynnwys:
  - 11.1 canlyniadau peidio â dilyn cyfarwyddiadau
12. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer diweddarau a chadw cofnodion gwasanaeth yr unigolyn
13. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a'r modd y mae'n darparu gwybodaeth er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol
14. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth gwallt

## Cwmpas/Ystod

### Gwybodaeth ychwanegol

Os oes angen siampwio a/neu driniaeth gyflyru, rhaid i ddefnyddiwr y safon yma gyfeirio at

*\*SKAHDBR1 Siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen \**

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### Cyfarwyddiadau

1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd
2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
4. triniaethau yn y dyfodol

---

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Anatomeg a ffisioleg**

**\*\*1.** strwythur a swyddogaeth sylfaenol y gwallt

2. strwythur a swyddogaeth sylfaenol y croen

3. gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig

### Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBR5, SKAHDBR6, SKAHDBR10, SKAHDBR11, SKAHDBR12, SKAHDBR13,  
SKAHDBR15

## Cynorthwyo gyda gwasanaethau cemegol

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	n/a
Galwedigaethau perthnasol	Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt a barbro
Geiriau Allweddol	cynorthwyo gyda gwasanaethau cemegol seiliedig, cynorthwyo uwch aelod o staff